GWERS TGAU OPEN DOORS:

SUT MAE'R EGLWYS YN YMATEB I ERLEDIGAETH?

NODIADAU

NOD: **Helpu disgyblion i ddeall sut mae Cristnogion yn ymateb i erledigaeth a sut mae Eglwysi yn y DU yn cefnogi Cristnogion sy'n wynebu erledigaeth ledled y byd.**

Bydd y wers hon yn cyrraedd y gofynion cwricwlwm canlynol:

AQA: Y ffordd mae Eglwysi Cristnogol yn ymateb i erledigaeth.

EDEXCEL: Yr anawsterau mae'r Eglwys sy'n cael ei herlid yn eu hwynebu. Yr Eglwys fel Corff Crist.

OCR: Y ffordd mae'r Eglwys yn cael ei herlid yn yr unfed ganrif ar hugain.

QJEC EDUQAS: Y ffordd mae Cristnogion wedi cael eu herlid yn y gorffennol ac yn cael eu herlid yn y presennol.

DISGWYLIADAU'R WERS

P'un ai eich bod chi'n rhywun sy'n dysgu'n rheolaidd neu'n rhywun sy'n newydd i waith yr ysgol, mae'n bwysig gosod disgwyliadau ar gyfer y wers o'r dechrau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol wrth drafod ffydd gan ei bod yn bwnc a allai fod yn un emosiynol i rai.

Efallai yr hoffech gychwyn y wers gyda pharagraff fel yr un isod er mwyn nodi'n glir beth yr ydych yn ei ddisgwyl gan y disgyblion.

Helo fy enw i yw ..... Heddiw, fel rhan o'ch gofynion TGAU, rydym yn mynd i drafod erledigaeth grefyddol.

Nawr, rwy'n ymwybodol bod trafod ffydd yn gallu bod yn bwnc sensitif gan fod gennym, yn aml, brofiadau a safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r pwnc hwn. Fel rhan o'r sesiwn heddiw, rydym yn mynd i ofyn i chi rannu eich syniadau ac rydym yn mynd i'ch cael chi i wneud gwaith gyda phartner ac mewn grŵp.

Wrth gychwyn, rwy eisiau esbonio disgwyliadau'r wers hon yn glir wrthych. Rwy'n disgwyl i bob disgybl yn y dosbarth hwn i:

- Wrando ar eich gilydd
- Barchu eich gilydd – hyd yn oed pan mae gennych safbwyntiau gwahanol
- Gymryd rhan yn y sesiwn – i gymryd rhan ym mhob elfen o'r wers

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD CYCHWYNNOL

RHESTR GWYLIO'R BYD / *5 MUNUD*

Os nad ydych eisoes wedi ei wylio mewn gwers arall, gwyliwch Fideo Rhestr Gwylio'r Byd Open Doors: Y Deg Uchaf.

Cyflwynwch y cysyniad o erledigaeth – mewn parau gofynnwch i'ch dosbarth i feddwl am wahanol ffyrdd y gall pobl gael eu herlid am ymarfer eu crefydd.

Gofynnwch am adborth i weld beth mae eich disgyblion eisoes yn ei wybod. Os nad ydynt yn crybwyll yr isod, efallai y byddai'n dda cyfeirio at y rhestr hon:

- Risg o gael eich herwgipio
- Arestio/carcharu
- Casineb/gwrthwynebiad gan eich teuluoedd/cymdogion
- Marwolaeth
- Cael eich anfon i wersyll llafur
- Ddim yn cael mynd a'ch plant i'r eglwys/capel
- Trais – trais corfforol neu ymosodiadau bomio
- Ddim yn cael troi i ffwrdd o'ch crefydd
- Dim mynediad i addysg, swyddi, cymorth cyfreithiol, cyfleoedd
- Cael eich hacio ar y we

Esboniwch eich bod chi heddiw yn mynd i ganolbwyntio ar brofiad Cristnogion sy'n profi erledigaeth ledled y byd.

GWEITHGAREDD 1

BETH MAE'R BEIBL YN EI DDYSGU I GRISTNOGION AM ERLEDIGAETH? / *15 MUNUD*

Gwyliwch Fideo Rohan

Mewn parau, atebwch y cwestiwn hwn: Beth wnaeth sefyll allan i chi wrth wylio'r fideo?

Ar ddiwedd y fideo, mae Rohan yn dechrau dyfynnu adnod o'r Beibl sy'n ei annog i ddal ati er ei fod yn wynebu erledigaeth. Rydym yn mynd i edrych ar adnodau eraill o'r Beibl sy'n sôn am erledigaeth i weld sut mae'r Beibl yn dysgu Cristnogion i ymateb i erledigaeth.

Rhowch un adnod o'r Beibl i bob pâr i'w ddarllen: Gofynnwch iddyn nhw ddarllen yr adnod ac i ateb y cwestiwn – beth mae hyn yn dysgu Cristnogion ynglŷn ag erledigaeth?

Gofynnwch i'r parau i roi adborth i weddill y dosbarth a gwnewch yn siŵr eich bod wedi trafod pob adnod. Anogwch eich disgyblion i nodi'r hyn maent wedi ei ddysgu ar y dudalen waith sy'n cynnwys yr adnodau o'r Beibl.

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD 2

ERLEDIGAETH YN Y GORFFENNOL AC YN Y PRESENNOL / *10 MUNUD*

Nid rhywbeth newydd yw erledigaeth; gadewch i ni weld beth yr ydych chi yn ei wybod am hanes erlid Cristnogion.

Cwis

1. Pryd ddechreuodd yr erledigaeth yn erbyn Cristnogion?
- **a.** Pan yr oedd Iesu'n fyw
- **b.** Pan oedd eglwysi'n dechrau cael eu sefydlu
- **c.** Pan ddechreuodd crefyddau eraill

Cafodd Iesu ei erlid. Nid oedd arweinwyr crefyddol ei oes yn hoffi'r ffordd roedd ei neges yn herio eu dysgeidiaeth nhw. Ond eto nid oedden nhw'n gallu dod o hyd i unrhyw beth oedd o'i le gyda'r hyn a wnaeth na'r hyn a ddysgodd Iesu. Cafodd ei arestio yn dilyn cyhuddiadau ffug ac roedd Pilot, llywodraethwr y cyfnod, yn awyddus i'w ryddhau. Dim ond am i'r dorf ddechrau gweiddi gan fynnu iddo gael ei ladd y cafodd Iesu ei groeshoelio.

2. Pwy oedd y Cristnogion cyntaf i gael eu carcharu?
- **a.** Iago a Jwdas
- **b.** Tomos a Barnabas
- **c.** Pedr ac Ioan

Cafodd Pedr ac Ioan eu harestio am iddyn nhw weddïo dros ddyn a gafodd ei iacháu o'i gloffni. Nid oedd yr arweinwyr crefyddol yn hoffi eu bod yn siarad am Iesu, gan honni ei fod wedi codi o farw'n fyw, felly dyma nhw'n dweud wrthyn nhw i stopio sôn amdano. Yn y pen draw, cafodd Pedr ac Ioan eu rhyddhau ond ni wnaethant stopio sôn am Iesu.

3. Pam wnaeth yr Ymerawdwr Diocletian ddechrau erlid Cristnogion?
- **a.** Oherwydd eu bod nhw'n gwrthod addoli Rhufain a'r Ymerawdwr
- **b.** Oherwydd eu bod nhw'n gwrthod talu trethi
- **c.** Oherwydd eu bod nhw'n gyfoethog

Dechreuodd yr Ymerawdwr Diocletian erlid Cristnogion gan ei fod yn teimlo o dan fygythiad gan nad oedd y Cristnogion yn addoli'r duwiau traddodiadol.

Roedd yn eu beio am achosi plâu, am golli rhyfeloedd ac am achosi amrywiol wrthryfeloedd. Roedd yr erledigaeth yn erbyn Cristnogion yn greulon. Roedd Cristnogion yn aml yn cael eu llosgi'n fyw, eu harteithio a'u lladd fel adloniant yng nghystadlaethau'r Gladiator. Roedd Cristnogion yn cael eu dysgu gan y Beibl i dalu trethi ac yn amlach na pheidio roeddent yn dlawd, nid yn gyfoethog.

4. Faint o Gristnogion sy'n wynebu erledigaeth heddiw?
- **a.** 320 miliwn
- **b.** 330 miliwn
- **c.** 340 miliwn

Mae mwy o Gristnogion yn wynebu erledigaeth heddiw nag erioed o'r blaen. Mae erledigaeth yn erbyn Cristnogion yn cynyddu ac mae'n gwaethygu.

5. Mae Rohan (o'r fideo) yn byw yn India. Ym mha safle ar Restr Gwylio'r Byd (rhestr o'r llefydd mwyaf peryglus i fod yn Gristion) mae India?
- **a.** 20
- **b.** 10
- **c.** 1

Mae erledigaeth yn erbyn Cristnogion wedi gwaethygu'n ddifrifol yn India yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl nifer o bobl, mae bod yn ddinesydd Indiaidd hefyd yn golygu bod yn Hindŵ. Felly, os ydych chi'n gwrthod Hindŵaeth, nid ydych chi'n ddinesydd Indiaidd go iawn ac rydych mewn sefyllfa arbennig o fregus.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD 3

PAM FOD EGLWYSI YN Y DEYRNAS UNEDIG YN CEFNOGI CRISTNOGION SY'N CAEL EU HERLID? / *10 MUNUD*

Beth mae Eglwysi yn y DU yn ei feddwl o erledigaeth ledled y byd a sut maen nhw'n mynd ati i ymateb i'r peth?

ESBONIAD

Efallai yr hoffech ddarllen 1 Corinthiaid 12:12-27 i'r dosbarth.

Yn y Beibl, mae'r Apostol Paul yn defnyddio darlun o'r corff dynol i ddangos fod Cristnogion yn rhan o un corff er eu bod yn edrych yn wahanol a bod ganddynt sgiliau gwahanol i'w gilydd. Trwy wneud hyn, roedd Paul yn sôn am undod y Cristnogion - er bod eglwysi yn edrych yn wahanol i'w gilydd a bod Cristnogion yn wynebu gwahanol brofiadau, maen nhw i gyd yn rhan o'r un corff. Ac Iesu yw pen y corff hwnnw.

ENGHRAIFFT FYW

Gofynnwch am wirfoddolwr: Gofynnwch iddyn nhw actio beth sy'n digwydd pan maent yn taro bodiau eu traed ar rywbeth. (Hynny yw, maent yn dal eu troed, yn gweiddi ac yn hopian o gwmpas). Fel arfer, pan rydych yn brifo bodiau eich traed, mae eich corff i gyd yn ymateb trwy dynhau eich cyhyrau/ trwy weiddi / trwy hercian o gwmpas – nid ydych chi'n gallu gwneud arall! Pan mae un rhan o'ch corff mewn poen, mae'r corff cyfan yn ymateb.

Felly, i ddychwelyd at y darlun o'r eglwys fyd-eang fel corff, mae hyn yn golygu fod Cristnogion ledled y byd wedi'u cysylltu gyda'i gilydd. Os yw un rhan o'ch corff yn brifo, mae gweddill eich corff yn ymwybodol o hyn. Meddyliwch am y peth. Os ydych chi'n torri eich troed, mae'n debygol y byddwch chi'n gweiddi mewn poen; yna mae mwy o bwysau yn cael ei roi ar eich breichiau/dwylo wrth i chi ddefnyddio'ch baglau – mae eich holl gorff yn cael ei effeithio.

Mae'r un peth yn wir am gorff yr Eglwys – os yw un rhan o'r eglwys (e.e. Cristnogion Irac yn dioddef) yna mae'r corff i gyd yn dioddef. Mae gan Gristnogion sydd â rhyddid gyfrifoldeb i gefnogi'r rhai sydd heb ryddid. Os oes un rhan o'r corff yn wan, mae'r corff i gyd yn cael ei wanhau. Os oes un rhan o'r corff yn gryf, mae'r corff i gyd yn cael ei gryfhau.

GWEITHGAREDD 4

SUT MAE EGLWYSI YN Y DEYRNAS UNEDIG YN CEFNOGI CRISTNOGION SY'N CAEL EU HERLID? / *15 MUNUD*

Gwyliwch fideo Abishek – fel un sy'n cynorthwyo'r eglwys yn India, mae Abishek yn cysylltu'r eglwys yn India gyda'r eglwys fyd-eang. Stopiwch y fideo ar 2:20

- Sut mae'r fideo'n dangos y ffordd mae'r eglwys yn ymddwyn fel un corff?

Mewn parau, meddyliwch am 3 ffordd mae Cristnogion yn y DU yn cefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid?

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEDDI
Mae Cristnogion yn credu fod gweddi'n gallu newid pethau. Yn ôl Cristnogion, trwy weddïo dros y rhai sydd wedi'u carcharu neu sydd mewn perygl o wynebu ymosodiadau neu o gael eu harestio, gall Duw newid eu sefyllfa.

Ychydig flynyddoedd yn ôl yn Fietnam, ysbeiliwyd saith eglwys bwysig yn un o daleithiau'r wlad. Carcharwyd yr arweinwyr a chafodd eu heglwysi eu cloi gyda chadwyni. Roedd y bobl a fynychodd yr eglwysi hyn yn ofni eu bod yn mynd i gael eu harestio ac yn poeni na fyddent eto'n gallu addoli Duw yn eu heglwysi. Penderfynodd y Cristnogion hyn i ymgynnull gyda'i gilydd mewn lleoliad a oedd taith 5 awr i ffwrdd gan ei bod hi'n ddiogel i weddïo yno. Yn ogystal â hyn, gofynnodd y Cristnogion hyn i'w partneriaid ledled y byd i weddïo drostynt. Felly, yn ogystal â'r 400 o bobl a gasglodd at ei gilydd i weddïo yn y jyngl, roedd Cristnogion ledled y byd yn gweddïo y byddai Duw yn rhyddhau arweinwyr yr eglwysi ac yn ei gwneud hi'n ddiogel iddyn nhw ymarfer eu ffydd. Drannoeth, rhyddhawyd yr holl arweinwyr! Ni chawsant eu cyhuddo o ddim byd a chafodd eu hadeiladau eu datgloi. Llwyddodd yr eglwysi i ailddechrau cyfarfod gan gredu'n gryf fod eu gweddïau wedi cael eu hateb.

CODI ARIAN
Ar hyn o bryd, trwy gyfrwng yr elusen Open Doors, mae Cristnogion yn codi arian i helpu Cristnogion yn India sy'n byw dan glo oherwydd Covid-19. Y gwahaniaeth mawr rhyngom ni a nhw ydy nad oes unrhyw gymorth o gwbl ar gael i bobl nad ydynt yn gallu gweithio. Mae llawer o Gristnogion yn perthyn i'r cast dalit sef y dosbarth cymdeithasol isaf a thlotaf. Maent yn aml yn gweithio mewn swyddi lle maent yn ennill cyflog dyddiol ac felly os nad ydynt yn gweithio'n ddyddiol, nid ydynt yn gallu prynu bwyd i'w fwyta. Mae Cristnogion hefyd yn cael eu trin yn annheg hyd yn oed pan mae rhywfaint o gymorth ar gael ac felly maent mewn sefyllfa arbennig o fregus.

BOD YN LAIS I'R RHAI SY'N CAEL EU HERLID
Efallai y bydd hyn yn golygu ysgrifennu llythyr at un o Aelodau Seneddol y DU i ymgyrchu dros y bobl sydd wedi eu carcharu'n annheg. Cafwyd enghraifft o hyn pan gafodd dynes o'r enw Asia Bibi ei charcharu ym Mhacistan. Asia oedd y ddynes gyntaf i gael ei dedfrydu i farwolaeth am gablu ym Mhacistan.

Pan aeth Asia i nôl dŵr o ffynnon ei phentref yn 2009, cafodd ei hel oddi yno gan griw o fenywod Mwslimaidd a oedd mynnu y byddai hi'n gwneud dŵr y ffynnon yn 'aflan' pe bai hi'n ei defnyddio. Ymatebodd Asia drwy sôn fod Iesu wedi ei hachub gan ofyn iddynt, "Beth mae eich proffwyd chi wedi ei wneud i chi?" Cafodd ei dedfrydu i farwolaeth am gabledd yn 2010 am iddi ofyn y cwestiwn hwn a'i charcharu hyd fis Tachwedd 2018. Gofynnwyd i Gristnogion y DU i ysgrifennu llythyr at eu AS i roi pwysau ar lywodraeth Pacistan i'w rhyddhau. Nid achos Asia yw'r unig achos. Mae deddfau gwrth-gabledd Pacistan yn aml yn cael eu camddefnyddio i dargedu lleiafrifoedd bregus, gan gynnwys Cristnogion.

ANNOG CRISTNOGION TRWY YSGRIFENNU LLYTHYR ATYNT
Un ffordd y gall Cristnogion gysylltu â Christnogion eraill ledled y byd ydy trwy ysgrifennu llythyrau i annog y rhai sydd wedi'u carcharu a'r rhai sy'n wynebu amgylchiadau heriol.

YMWELD Â NHW
Yn aml, mae gan Eglwysi yn y DU gysylltiadau ag Eglwysi mewn gwledydd eraill. Maent yn aml yn rhoi cyfle i'w haelodau i ymweld â'r eglwysi hyn. Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar ba mor beryglus yw amgylchiadau'r eglwysi hyn.

ADOLYGU

5 MUNUD

- Gorffennwch trwy bwysleisio fod erledigaeth yn effeithio ar Gristnogion mewn ffyrdd gwahanol.
- Gofynnwch i bob disgybl i ysgrifennu un peth y mae'r Beibl yn ei ddysgu am erledigaeth ac un ffordd mae'r eglwys yn y DU yn ymateb fel corff Crist trwy gefnogi'r eglwys sy'n cael ei herlid.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

ADNODAU O'R BEIBL SY'N SÔN AM ERLEDIGAETH

ESBONIWCH BETH MAE'R ADNODAU HYN YN EU DYSGU I GRISTNOGION AM ERLEDIGAETH

MATHEW 5: 10-12
"Mae'r rhai sy'n dioddef erledigaeth am eu bod yn byw'n gyfiawn wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau. Pan fydd pobl yn eich sarhau chi, a'ch erlid, ac yn dweud pethau drwg amdanoch chi am eich bod yn perthyn i mi, dych chi wedi'ch bendithio'n fawr! Byddwch yn llawen! Mwynhewch er gwaetha'r cwbl, achos mae gan Dduw yn y nefoedd wobr fawr i chi. Cofiwch fod y proffwydi oedd yn byw ers talwm wedi cael eu herlid yn union yr un fath!"

MATHEW 5: 43-44
[Dywedodd Iesu] "Dych chi wedi clywed i hyn gael ei ddweud: 'Rwyt i garu dy gymydog' (ac 'i gasáu dy elyn'). Ond dw i'n dweud wrthoch chi: Carwch eich gelynion a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid chi!"

IOAN 15:18-20
[Dywedodd Iesu] "Os ydy'r byd yn eich casáu chi, cofiwch bob amser ei fod wedi fy nghasáu i gyntaf. Tasech chi'n perthyn i'r byd, byddai'r byd yn eich caru chi. Ond dych chi ddim yn perthyn i'r byd, achos dw i wedi'ch dewis chi allan o'r byd, felly mae'r byd yn eich casáu chi. Cofiwch beth ddwedais i wrthoch chi: 'Dydy caethwas ddim uwchlaw ei feistr.'"

IAGO 1:2-4
"Frodyr a chwiorydd, pan fyddwch chi'n wynebu pob math o dreialon, ystyriwch hynny'n rheswm i fod yn llawen. Achos pan mae'ch ffydd chi'n cael ei brofi mae hynny'n meithrin y gallu i ddal ati a pheidio rhoi'r gorau iddi. Ac mae dal ati drwy'r cwbl yn eich gwneud chi'n gryf ac aeddfed – yn barod ar gyfer unrhyw beth!"

2 CORINTHIAID 12:9-10
"Ond ei ateb oedd, 'Mae fy haelioni i'n hen ddigon i ti. Mae fy nerth i'n gweithio orau mewn gwendid.' Felly dw i'n hapus iawn i frolio am beth sy'n dangos mod i'n wan, er mwyn i nerth y Meseia ddal i weithio trwof fi. Ydw, dw i'n falch fy mod i'n wan, yn cael fy sarhau, yn cael amser caled, yn cael fy erlid, ac weithiau'n anobeithio, er mwyn y Meseia. Achos pan dw i'n wan, mae gen i nerth go iawn."

RHUFEINIAID 8:35-39
"Oes yna rywbeth sy'n gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad y Meseia? Nac oes, dim byd! Dydy poen ddim yn gallu, na dioddefaint, cael ein herlid, newyn na noethni, peryglon na hyd yn oed cael ein lladd! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud:

"O'th achos di dŷn ni'n wynebu marwolaeth drwy'r amser;
Dŷn ni fel defaid ar eu ffordd i'r lladd-dy."

Ond dŷn ni'n concro'r cwbl i gyd, a mwy, am fod y Meseia wedi'n caru ni. Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol. Dim byd ym mhellteroedd eitha'r gofod nac yn nyfnderoedd y ddaear! Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!"

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors